

2 - Pantasaph i Faen Achwyfan 3.3 milltir/5.3 kmMap Archwilio OS 265

Gadewch y Fynachlog drwy gerdded ar hyd y llwybr heibio'r fynedfa i Orsafoedd y Groes a throwch i'r chwith. Ar gyffordd y ffordd, trowch i'r dde a mynd at y gyffordd nesaf. Croeswch dros y ffordd i'r llwybr troed wrth gamfa a giât. Cymerwch y llwybr yma gyda'r gwrych ar eich ochr dde i gymuned Lloc. Croeswch y ffordd i'r groesffordd wrth y Rock Inn, ewch yn syth ar draws a cherdded ar hyd ochr y ffordd. Cymerwch y trac cyntaf ar eich ochr dde – os byddech yn parhau yn syth ymlaen, byddech yn dod at gapel bychan sy'n cynnal Plygain (Gwasanaeth Carolau) am 6 o'r gloch bob Bore Nadolig. Cymerwch y trac yma sy'n troi'n llwybr cyn hir i basio ar ochr chwith un ffermdy (Hollow Farm) ac ochr dde'r nesaf (Twill Bach). Wrth groesffordd y traciau trowch i'r chwith ac yna croeswch ffordd i fynd ar lwybr ceffyl. Ewch yn syth i'r chwith, dros gamfa ac anelwch am y giât ar ochr chwith y ffermdy (Garreg Farm). Ewch drwy'r giât a cherdded ar hyd y llwybr ceffyl ar ochr dde adeiladau'r fferm ac i fyny at drac. Trowch i'r chwith ar hyd y trac yma a, chyn hir, trowch i'r dde i fynd i fyny'r allt i'r coed (Coed y Garreg). Wrth i chi fynd i mewn i'r goedwig, trowch i'r chwith ar hyd llwybr y goedwig. Dilynwch y llwybr yma at y gamfa ar ben y llwybr.

Ar eich ochr dde mae copa'r allt lle'r oedd Goleudy Rhufeinig medden nhw (golygfa wych).

Croeswch dros y gamfa ac ewch ar letraws i'r dde at gamfa arall ac yna at gamfa garreg wrth ochr y bwthyn. Trowch i'r chwith at y gyffordd groesgam gyda Maen Achwyfan yn y cae.